



**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL  
RHONDDA CYNON TAF  
COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**GWŶS I GYFARFOD PWYLLGOR**

C Hanagan  
Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Llywodraethol a Chyfathrebu  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf  
Y Pafiliynau Parc Hen Lofa'r Cambrian  
Cwm Clydach, CF40 2XX

Dolen gyswllt: Julia Nicholls - Gwasanaethau Democrataidd (01443 424098)

**DYMA WŶS I CHI** i gyfarfod rhithwir o **GYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF** sydd i'w gynnal ar **DYDD MERCHER, 29AIN GORFFENNAF, 2020** am **3.00 PM.**

**AGENDA**

**Tudalennau**

**1. DATGANIAD O FUDDIANT**

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion Cod Ymddygiad y Cyngor.

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agenda y mae eu buddiant yn ymwneud ag e a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant personol sy'n rhagfarnu, **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

**2. CYHOEDDIADAU**

**3. COFNODION**

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 18 Mawrth 2020, a'r cyfarfod rhithwir o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 1 Gorffennaf 2020, yn rhai cywir.

#### **4. DATGANIADAU**

Yn unol â Rheol 2 o Weithdrefn Llywodraethu Agored Cyfarfodydd y Cyngor, derbyn datganiadau gan Arweinydd y Cyngor a/neu Gynghorwyr sy'n Aelodau Portffolio o'r Cabinet:

#### **5. CWESTIYNAU GAN YR AELODAU**

Derbyn cwestiynau'r Aelodau yn unol â Rheol 9.2 o Weithdrefn y Cyngor.

(**Nodwch:** Caniateir hyd at 20 munud ar gyfer cwestiynau.)

21 - 26

### **RHAGLEN WAITH Y CYNGOR – ER GWYBODAETH I AELODAU**

[Rhaglen Waith Y Cyngor](#)

#### **ADRODDIADAU'R SWYDDOGION**

#### **6. Y NEWYDDION DIWEDDARAF MEWN PERTHYNAS Â'R CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR GYFER RHONDDA CYNON TAF**

Derbyn y newyddion diweddaraf mewn perthynas â chynnydd y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) ar gyfer Rhondda Cynon Taf.

27 - 112

#### **7. ADOLYGIAD BLYNYDDOL CYLCH RHEOLI'R TRYSORLYS 2019/20**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyllid a Digidol

113 - 122

#### **8. Y NEWYDDION DIWEDDARAF AM GYFARFODYDD RHITHWIR**

Derbyn y newyddion diweddaraf am y cynnydd o ran cynnal cyfarfodydd pwyllgor y Cyngor ar-lein, a gwybodaeth am y camau nesaf.

123 - 132

#### **9. RHYBUDD O GYNNIG (BUSNES GOHIRIEDIG O 18 O MAWRTH 2020)**

Trafod Rhybudd o Gynnig sydd wedi'i gyflwyno yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol J. James a L. Hooper.

Amcangyfrifir bod 200,000 o blant y DU yn cael eu magu gan aelodau'r teulu neu ffrindiau. Gelwir trefniant o'r math hwn yn 'Ofal gan Berthnasau a Chyfeillion'.

Mae'r math yma o gynhalwyr (gofalwyr) yn gofalu am blant nad oes modd i'w rhieni eu hun edrych ar eu holau neu gadw'r teulu gyda'i gilydd. Mae teirgwaith y nifer o blant yn derbyn y math yma o ofal nag sy'n rhan o'r system ofal maeth genedlaethol, ac mae'r niferoedd yn cynyddu.

Dyma un o'r prif ffyrdd o sicrhau ymdeimlad o ddiogelwch, cysondeb a pherthyn ar gyfer plant nad oes modd iddyn nhw fyw gyda'u teuluoedd, ac mae'n rhoi llawer iawn o sicrwydd a chefnogaeth barhaus iddyn nhw tra byddan nhw'n tyfu'n oedolion ifainc.

Serch hynny, mae'r cymorth sydd ar gael i Berthnasau a Chyfeillion sy'n Gynhalwyr ledled y wlad yn anghyson, ac mae modd i gynhalwyr deimlo'u bod nhw wedi'u hynysu, bod neb yn poeni a bod pawb wedi troi'u cefnau arnyn nhw. Mae hyn yn gwrthgyferbynnu'n llwyr â'r cymorth y mae modd i rieni maeth a rhieni sy'n mabwysiadu ei dderbyn.

Mae'r Cyngor hwn yn cydnabod y gwaith amhrisiadwy y mae cynhalwyr sy'n berthnasau a chyfeillion yn ei wneud ar ran eu hanwyliaid, yn aml mewn sefyllfaoedd anodd, ac mae'n ymrwymo i gynnig yr help, yr anogaeth a'r cymorth y maen nhw eu hangen

Mae'r Cyngor yma'n gofyn bod y Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc yn trafod adroddiad sy'n edrych ar rôl gofal gan berthnasau a chyfeillion yn y Fwrdeistref Sirol ymhellach, ac yn gweithio'n agos gyda Grandparents Plus i nodi sut y gall fodloni anghenion y cynhalwyr yma a'r plant sydd yn eu gofal.

#### **10. TRAFOD CADARNHAU'R PENDERFYNIAD ISOD:**

“Bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.”

#### **11. PENODI CYFARWYDDWR CYFADRAN, GWASANAETHAU CYMUNED A GWASANAETHAU I BLANT AC I RÔL Y DIRPRWY BRIF WEITHREDWR**

Trafod adroddiad y Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol.

## 12. MATERION BRYS

### Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Llywodraethol a Chyfathrebu

At: Pob Aelod o'r Cyngor